(HCC 897)

**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10.00am Yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth ddydd Iau 4 Gorffennaf 2019**

**Yn Bresennol:** Kevin Roberts (Cadeirydd)
Gareth Wynn Davies, John Davies, Rachael Madeley Davies, Catherine Smith, Claire Williams ac Ogwen Williams

**Trwy Wahoddiad:** Mark Alexander, Yr Athro Christianne Glossop a Maria Richards, Llywodraeth Cymru<

**Y Weithrediaeth a oedd yno:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)
John Richards (Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant)
Owen Roberts (Rheolwr Cyfathrebu)

**I groesawu'r A|thro Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru**

Croesawodd y Cadeirydd y Prif Swyddog i'r cyfarfod. Rhoddodd hi ddiweddariad llawn gwybodaeth i'r Bwrdd ynghylch y meysydd y mae Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol yn ymwneud â nhw ar hyn o bryd, gan gynnwys: -

- Cadw llygad agos o hyd ar achosion o glefydau a chymryd y camau priodol
- Paratoi ar gyfer Brexit a'r effaith bosibl
- Cynllunio Iechyd (ar hyn o bryd yn ymchwilio i ganfod pa ddeddfwriaeth sydd ei hangen mewn perthynas â BVD o ystyried bod y cynllun gwirfoddol yn dod i ben yn fuan)
- Gwaith Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (targedau a gweledigaeth wedi'u sefydlu ar gyfer y 10 mlynedd nesaf - bwrw ymlaen â hyn)
- Parhaodd Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru i gyfarfod yn rheolaidd i drafod materion sy'n cael effaith ar y diwydiant a chymryd camau priodol
- Caer gwared ar y Clafr – roedd y gwaith yn parhau, gan ddefnyddio'r £5m a gyfrannwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Newid yn yr Hinsawdd - Parhawyd â'r gwaith ynghylch effaith Newid yn yr Hinsawdd ar iechyd a lles anifeiliaid
- Yr ymgysylltiad yn parhau gyda Phartneriaeth Ardystiad Allforio y DG (UKECP), yn enwedig mewn perthynas â bod yn barod ar gyfer Brexit
- VetHub 1 – Roedd y gwaith yn mynd yn ei flaen i ddatblygu canolbwynt milfeddygol o'r radd flaenaf gwerth £4.2m i hybu ymchwil ac i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phobl. Rhagwelwyd y byddai'r VetHub1 yn gwbl weithredol yn ystod gwanwyn 2020
- Byddai cynhadledd gychwynnol AberTB, sef Diagnosis TB mewn Gwartheg: Arferion Cyfredol ac Arloesi yn y Dyfodol, yn cael ei chynnal ym Mhrifysgol Aberystwyth ar 17 Medi 2019.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog Milfeddygol am fynychu'r cyfarfod o'r Bwrdd ac yna dechreuodd rhan ffurfiol y cyfarfod.

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu oddi ar y cyfarfod blaenorol o'r Bwrdd: -

3 Mehefin 2019 - Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr mewn cyfarfod o Fwrdd Rhaglen Gwerthoedd Brandiau Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

5 Mehefin 2019 - Roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn bresennol yng nghynhadledd Cymdeithas Cig a Phroseswyr Prydain (BMPA).

7 Mehefin 2019 – Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yng nghynhadledd Amaethyddiaeth Gynaliadwy: Bwyd, Ffermio a'r Amgylchedd NFU Cymru, a gynhaliwyd ar fferm y Pentre, Merthyr Cynog.

20 Mehefin 2019 – Bu'r Cadeirydd a'r Weithrediaeth yn briffio Llywydd a Rheolwr Gyfarwyddwr Undeb Amaethwyr Cymru ar weithgareddau cyfredol HCC, ynghyd â thrafod materion cyfredol yn ymwneud â'r diwydiant.

21 Mehefin 2019 – Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr mewn cyfarfod o Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus Llywodraeth Cymru..

25 Mehefin 2019 – Bu'r Cadeirydd yng nghinio blynyddol Cymdeithas Milfeddygon Prydain (BVA).

27 Mehefin 2019 - Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr mewn cyfarfod Bord Gron Brexit yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig (EERA).

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Cafwyd ymddiheuriadau gan dri o Aelodau'r Bwrdd, sef Huw Davies, Helen Howells a Barrie Jones.

3. **Datganiadau o Fuddiannau**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

4. **I gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 2 Mai 2019 (HCC 888)**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 2 Mai 2019 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **Materion yn codi**

*Ymgysylltu a chydweithio gyda'r Gymdeithas Arwerthwyr Da Byw (LAA)*

Cadarnhawyd y byddai'r Cadeirydd, y Prif Weithredwr a swyddogion Llywodraeth Cymru yn cwrdd â chynrychiolwyr o'r LAA ddydd Gwener 5 Gorffennaf 2019 yn Nolgellau.

Byddai'r Bwrdd yn cael diweddariad yn y cyfarfod nesaf.

*Grŵp HCC ar gyfer Ymgysylltu â'r Diwydiant (ILG)*

Am nad oedd aelodau Grŵp ILG ar gael, canslwyd y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 23 Mai 2019.

Roedd y cyfarfod nesaf i fod i gymryd lle ar 15 Hydref 2019 i ystyried syniadau sganio'r gorwel mewn perthynas â phroses gynllunio HCC ar gyfer Cynllun Gweithredol 15 / 2019.

Byddai'r Swyddog Gweithredol Cig Coch yn cydlynu trefniadau ar gyfer y cyfarfod hwn ddechrau mis Medi 2019.

*Polisi Dosbarthu a Thrafod Gwybodaeth HCC*

Roedd y gwaith yn mynd yn ei flaen ynghylch datblygu gwasanaeth storio system-gwmwl i'w ddefnyddio i storio a rhannu holl ddogfennau cyfrinachol HCC, fel papurau'r Bwrdd a Phwyllgorau.

Cytunodd un o aelodau'r Bwrdd, Ogwen Williams, i dreialu'r system gyda'r Weithrediaeth. Rhagwelwyd y byddai papurau cyfarfod y Bwrdd ym mis Medi yn cael eu dosbarthu trwy'r system newydd.

*Cyfathrebu*

Dywedodd y Rheolwr Cyfathrebu fod gwaith yn mynd rhagddo ar Newid yn yr Hinsawdd mewn perthynas â gwaith cronfa wedi ei chlustnodi (RFF) ac ar wahân o fewn gweithgareddau craidd HCC.

*Staffio HCC*

Nodwyd bod y recriwtio diweddar i lenwi nifer o swyddi HCC, Prosiect Datblygu Cig Coch ac EIDCymru (a nodwyd yn y cofnodion blaenorol) wedi bod yn llwyddiannus.

6. **Rôl a dyletswyddau Cyfarwyddwyr Anweithredol HCC (y Bwrdd)**

Dywedodd y Cadeirydd fod yr uchod wedi cael ei ddwyn eto at sylw'r Bwrdd yn dilyn materion diweddar a dynnwyd at sylw'r Gweinidog.

Roedd y Gweinidog wedi gofyn i'r Cadeirydd atgoffa'r Bwrdd o'u rolau, eu dyletswydd gofal a'u cyfrifoldebau fel Cyfarwyddwyr Anweithredol o HCC ac yn benodol "Egwyddorion Nolan".

7. **Gwerthuso Cadeirydd a Bwrdd HCC 2019**

Byddai'r broses o werthuso'r Cadeirydd a'r Bwrdd yn cychwyn tua diwedd Awst 2019. Byddai'r cyfathrebu'n cael ei rannu maes o law.

8. **Y diweddaraf am Brexit - I drafod y datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â'r DG yn ymadael â'r UE**

Roedd yn ymddangos yn fwy tebygol bellach na cheid cytundeb Brexit ar 31 Hydref 2019

Cafwyd trafodaeth ford gron ynghylch yr uchod.

Cyutunwyd I ddiweddaru'r papur a rannwyd gyda'r Bwrdd ar gyfer y cyfarfod ar 27 Chwefror 2019 (cyfeiriwch at HCC 864 "Archwiliad o barodrwydd HCC i adael yr Undeb Ewropeaidd") ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Trafodwyd pryderon ynghylch Iechyd Meddwl yn y diwydiant o ganlyniad i Brexit a'r effaith bosibl ar les unigolion ac anifeiliaid. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn y broses o ffurfio grŵp o fewn y diwydiant mewn perthynas â'r pwnc hwn ac ar hyn o bryd roedd yn cyfathrebu ag elusennau cysylltiedig fel Mind.

9. **Adroddiadau HCC**

a. Gweithgareddau (HCC 889)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

*Cyfathrebu*

Roedd yr adran Gyfathrebu yn dal i gynllunio o amgylch y senarios cyfredol a pharhaus sy'n ymwneud â Brexit, yn ogystal â mynd i'r afael â materion cyfredol y diwydiant gyda'r wasg a'r cyfryngau, yn enwedig materion Newid yn yr Hinsawdd a phrisiau Cig Eidion yn gostwng.

Parhaodd yr adran Gyfathrebu i gynllunio o amgylch y senarios cyfredol a pharhaus sy'n ymwneud â Brexit yn ogystal â mynd i'r afael â materion cyfredol y diwydiant gyda'r wasg a'r cyfryngau yn enwedig materion Newid Hinsawdd a phrisiau Cig Eidion yn gostwng.

*Datblygu'r Farchnad*

Ar hyn o bryd roedd yr adran Datblygu'r Farchnad yn cynllunio ar gyfer nifer o ddigwyddiadau i ddefnyddwyr a masnach: -

- Countryfile Live (Palas Blenheim) 1 – 4 Awst 2019
- Diwrnod Cig Oen / Wythnos Caru Cig Oen o 1 Awst 2019
- Mân-werthu – gweithgareddau mewn siopau a threlar – Awst 2019
- Sioe Môn 13 – 14 Awst 2019
- The Good Life Experience, Penarlâg, Sir Y Fflint 12 – 15 Medi 2019
- Anuga, Cologne 5 – 9 Hydref 2019

*Datblygu Masnach*

Canmolodd y Prif Weithredwr Lywodraeth Cymru am drefnu ymweliad Is-Brif Weinidog Tsieina â Chymru yn ddiweddar. Roedd yr ymweliad yn hynod lwyddiannus a gobeithio y byddai'n arwain at gyflymu'r broses o godi'r gwaharddiad ar anfon cig eidion i Weriniaeth Tsieina. Roedd HCC wedi cynorthwyo Llywodraeth Cymru i drefnu'r ymweliad fferm a bu'r Prif Weithredwr mewn cinio swyddogol i nodi ymweliad yr Is-Brif Weinidog â Chymru.

Roedd yn fwriad cael ymweliad arall ym mis Medi 2019 er mwyn deall mwy am Glefyd Y Crafu ac i annog anfon cig defaid i Tsieina.

*Prosiect Meincnodi Cig Coch*

Rhoddodd Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant ddiweddariad ar yr uchod :

*Y Rhaglen Datblygu Cig Coch (RMDP)*

Parhaodd weithgareddau ynghylch cyflawni tri phrosiect, sef Stoc+ (Cynllunio Iechyd Diadelloedd a Buchesi, Geneteg Diadelloedd ac Ansawdd Bwyta Cig).

*Ailwladoli Ardoll Cig Coch*

Roedd gwaith ar y dull newydd arfaethedig o rannu taliadau Ardoll yn parhau a byddai'n cael ei drafod ymhellach gan y Byrddau Ardoll yn y cyfarfod nesaf ar 20 Awst 2019.

Byddai'r Prif Weithredwr yn diweddaru'r Bwrdd yn y cyfarfod ar 5 Medi 2019.

b. Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 890)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Trafodwyd y pryder ynghylch y prisiau isel ac anghynaliadwy ar gyfer cig eidion ar hyn o bryd a'r heriau anodd sy'n wynebu ffermwyr.

Byddai'r Weithrediaeth yn adolygu'r mater hwn yn ystod yr wythnosau nesaf ac yn ymgysylltu â'r diwydiant yn ôl yr angen.

c. Digwyddiadau i ddod (HCC 891)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

d. I gael manylion am bresenoldeb HCC yn Sioe Frenhinol Cymru 22 – 25 Gorffennaf 2019

Cyflwynwyd manylion am weithgareddau HCC yn ystod Sioe Frenhinol Cymru gan y Rheolwr Cyfathrebu. Câi gwybodaeth bellach a chamau i'w cymryd ynghylch y problemau cyfredol i'r diwydiant eu rhannu â'r Bwrdd yn yr wythnos cyn y Sioe.

10. **Pwyllgorau HCC**

***Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg***

a. I gael adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Mercher 12 Mehefin 2019

Cafwyd adroddiad llafar ar yr uchod gan Gadeirydd y Pwyllgor.

b. I gael crynodeb o'r pwyntiau allweddol yn y Datganiadau Ariannol 2018 / 2019 (HCC 892)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei gyflwyno gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

c. I dderbyn a chymeradwyo'r Datganiadau Ariannol ar gyfer 2018 - 2019 (HCC 893)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei gyflwyno gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Cadarnhaodd y Bwrdd (Cyfarwyddwyr Anweithredol) nad oedd unrhyw wybodaeth ychwanegol na newydd o ran eu datganiadau nad oedd yr Archwilwyr yn ymwybodol ohonynt.

Cafodd y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2018 / 2019 eu cymeradwyo gan y Bwrdd.

***Y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu***

d. I dderbyn a mabwysiadu'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu a gynhaliwyd ddydd Iau 2 Mai 2019 (HCC 894)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

***Y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata***

e. I dderbyn adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata a gynhaliwyd ddydd Llun 10 Mehefin 2019

Rhoddodd y Cadeirydd dros dro, Rachael Madeley Davies, adroddiad llafar ar yr uchod.

***Y Pwyllgor Cynghori ar Ymchwil a Datblygu a Chyfnewid Gwybodaeth (R&D&KE)***

f. I dderbyn adroddiad llafar a mabwysiadu'r cofnodion drafft o gyfarfod y Pwyllgor Ymchwil a Datblygu a Chyfnewid Gwybodaeth (R&D&KE) a gynhaliwyd ddydd Mercher 5 Mawrth 2019 (HCC 895)

Cymerwyd bod y cofnodion o'r delegynhadledd a gynhaliwyd ar 5 Mehefin 2019 wedi'u darllen, a chawsant eu mabwysiadu gan y Bwrdd.

Defnyddiwyd y cofnodion fel adroddiad i'r Bwrdd heb unrhyw faterion yn codi.

***Y Gweithgor Iechyd A Lles Diadelloedd a Buchesi (FHH&WW)***

g. I fabwysiadu cofnodion cyfarfod Gweithgor FHHWG a gynhaliwyd ddydd Mercher 1 Mai 2019 (HCC 896)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

11. **Unrhyw fater arall**

Ymgynghoriad Lywodraeth Cymru: Ffermio Cynaliadwy a'n Tir (ymatebion erbyn 30 Hydref 2019)

Nodwyd y byddai HCC yn ymateb i'r ymgynghoriad uchod. Gwahoddid y Bwrdd i roi adborth ar ymateb drafft HCC.

Cytunwyd gwahodd swyddogion Llywodraeth Cymru i gyfarfod y Bwrdd ar 5 Medi 2019 i'w briffio ar yr ymgynghoriad.

Strategaeth HCC ar gyfer yr Amgylchedd

Roedd y gwaith wedi dechrau ar ddiweddaru'r uchod. Rhoddid diweddariad i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ar 5 Medi 2019.

12. **Dyddiadau cyfarfodydd i ddod: -**

Cyfarfod o Fwrdd HCC – Ddydd Iau 5 Medi 2019 am 10.00am
Telegynhadledd ddiweddaru'r Bwrdd – Ddydd Iau 3 Hydref 2019 am 9.30am

**Llofnodwyd…………………………….**

**Cadeirydd HCC**